# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2012

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd H. Eifion Jones (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr C.Ll. Everett, W.I. Hughes, Aled M. Jones, Eric Roberts, Elwyn Schofield, Ieuan Williams, Selwyn Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Swyddog Cyfathrebu (GJ),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH),<br>Cynorthwy-ydd Gweinyddol (SAC) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr W.J. Chorlton, Bryan Owen. |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Mrs. Fflur M. Hughes, G.W. Roberts OBE |

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Swyddogion a'r Aelodau i'r cyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

**1 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Ieuan Williams yn Is-gadeirydd.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**3 SEFYDLU PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Prif Weithredwr ar yr uchod.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at y prif faterion yn yr adroddiad a nododd fod Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn rhoi dyletswydd ar yr awdurdod lleol i sefydlu Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Prif swyddogaeth y pwyllgor fydd sicrhau fod y Cyngor yn cael ei redeg yn dda, hyrwyddo sgriwtini cadarn a phroses gwneud penderfyniadau sy'n agored ac yn dryloyw a darparu cyfleon ar gyfer ymgysylltiad cymunedol effeithiol.

Gyda'r Cyngor hefyd yn moderneiddio'r modd y mae'n gweithio, disgwylir hefyd y bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar gyfleon hyfforddiant a datblygiad ar gyfer Aelodau gan gynnwys y defnydd o TGCh i'w helpu i gyflawni eu swyddogaethau.
Dywedwyd ymhellach fod Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i benodi Uwch Swyddog i arwain ym maes Gwasanaethau Democrataidd.

Materion a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor:-

- Roedd rhai aelodau'n anghyfforddus gyda phenodi Uwch Swyddog i swydd Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar sail dros dro yn hytrach na pharhaol;
- Dylid cysylltu gydag awdurdodau lleol sydd o faint tebyg i Ynys Môn er mwyn gweld pa weithdrefnau a fabwysiadwyd ganddynt o ran Gwasanaethau

Democrataidd;

- Angen gwella TGCh ar gyfer Aelodau;
- Ymgeiswyr posibl ar gyfer etholiadau'r Cyngor Sir a gynhelir mis Mai nesaf i fod yn ymwybodol fod yr awdurdod yn bwriadu gwella ei gyfleusterau TGCh, h.y. bydd Papurau Rhaglenni ar gael ar y rhyngrwyd yn hytrach na chopïau papur fel sy'n digwydd ar hyn o bryd;

Yn dilyn trafodaethau pellach, **PENDERFYNWYD**:

· Cymeradwyo penodi'r Pennaeth Polisi fel Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro hyd oni fydd y mater yn cael ei adolygu gan y Cyngor newydd yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2013;
· Mabwysiadu'r disgrifiad swydd drafft ar gyfer swyddogaeth a chyfrifoldebau Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor;

· Argymell i'r Cyngor Sir:-

o Ei fod yn ymestyn cylch gorchwyl y Pwyllgor i gynnwys cyfrifoldebau am y rhaglen hyfforddi a datblygu Aelodau gan gynnwys eu sgiliau TG a chefnogaeth ar gyfer hynny;

o Bod y Pwyllgor yn cynnal tri chyfarfod cyffredinol yn ychwanegol at ei Gyfarfod Blynyddol bob blwyddyn, gyda'r hawl i drefnu cyfarfodydd pellach yn ôl yr angen;

· Penderfynu ar ei raglen waith hyd at 30 Ebrill 2012.

**Y CYNGHORYDD H. EIFION JONES**
**CADEIRYDD**